# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Medi 2016

Amser: 14.00 - 16.59

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3722

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Richard Spear, Gyrfa Cymru<br>Nikki Lawrence, Gyrfa Cymru<br>Dr David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Nick Williams, HEFCW<br>Meilyr Rowlands, Estyn<br>Phil Sweeney, Estyn |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol cymru<br>Anthony Barrett |
| | Fay Buckle (Clerc) |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Helen Jones<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 2MB) Gweld fel HTML (344KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Nodwyd y cofnodion.

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Gyrfa Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Richard Spear, Prif Weithredwr a
Nikki Lawrence, Cyfarwyddwr Adnoddau Gyrfa Cymru am Adroddiad Blynyddol Gyrfa Cymru 2015-16.
3.2 Cytunodd Richard Spear i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y canlynol:

- Mae'r cyfrifon yn egluro bod staff Gyrfa Cymru yn aelodau o saith o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yn dilyn uno hanesyddol y cwmnïau gyrfaoedd rhanbarthol. Mae'r saith ardal hyn wedi'u rhestru yn y cyfrifon, ond mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael eglurhad ynghylch pam nad yw hen Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg wedi'i gynnwys yn y rhestr.
- Nifer y cysylltiadau a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd nifer y cysylltiadau a wnaed drwy ieithoedd nad ydynt yn Gymraeg na Saesneg.

## 4 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

4.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Dr David Blaney, Prif Weithredwr,
Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol a Nick Williams, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, CCAUC am Adroddiad Blynyddol CCAUC 2015-16.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Estyn

5.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd, a Phil Sweeney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Estyn am Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Bu'r Aelodau yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law wrth graffu ar Gyrfa Cymru ac adroddiadau blynyddol Estyn a CCAUC ar gyfer 2015-16